

Data: Prosesau, Gweithdrefnau a Chynnydd

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2016

Cyfeirnod: 16_03

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol, Swyddogion Cangen

Ymateb Erbyn: Does dim angen ymateb

Cyswllt: Dafydd Trystan

E-bost: d.trystan@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn dod a gwybodaeth at ei gilydd ynglŷn â'r data a gesglir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ymwneud â chyfleoedd astudio Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Data: Prosesau, Gweithdrefnau a Chynnydd

Cyflwyniad

Nod y cylchlythyr hwn yw dod a gwybodaeth at ei gilydd ynglŷn â'r data a gesglir mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ymwneud â chyfleoedd astudio Cyfrwng Cymraeg. Bydd yn diffinio'r data sydd ar gael a sut mae'n cael ei gasglu, yn egluro'r defnydd a wneir o'r data gan wahanol bartneriaid a rhanddeiliaid ac yn adolygu cynnydd mewn perthynas â'r data ers 2011.

Mae'r cylchlythyr yn adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd gan y Tasglu Data Cyfrwng Cymraeg yn 2008/09 ac ar sawl cyflwyniad a thrafodaeth yng ngweithdy Data blynyddol HEFCW.

Data

Mae data'n ymwneud â gallu ac astudiaeth Cyfrwng Cymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch Cymreig trwy'r adroddiad HESA.

Ceir dau faes penodol yn ymwneud â myfyrwyr sy'n llunio sail y dadansoddiad o ruglder ac astudiaeth Cymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch - WELSSP a LANGPCNT.

Yn ogystal ceir dau faes cofnodi staff yn ymwneud â dysgu Cyfrwng Cymraeg – TCHWLH a ABLWELSH.

WELSSP (Gallu i Siarad Cymraeg)

Mae'r maes hwn yn cofnodi p'un a yw'r myfyriwr yn ystyried ei hun i fod yn siaradwr Cymraeg ai peidio. Gellir cyflwyno'r gwerthoedd canlynol:

- 1 Siaradwr Cymraeg Rhugl
- 2 Siaradwr Cymraeg heb fod yn rhugl
- 3 Ddim yn siarad Cymraeg

Mae'r maes yn orfodol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac mae nifer yr ymatebion anhysbys wedi lleihau'n sylweddol ers 2011. Gan fod y maes hwn yn cael ei ddiffinio gan y myfyrwyr, gallai myfyriwr unigol amrywio yn eu diffiniad penodol o beth yw (neu beth nad yw) bod yn rhugl yn yr Iaith Gymraeg, ond fel sylfaen ar gyfer asesu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n astudio pwnc penodol neu mewn Sefydliad Addysg Uwch benodol mae'r data'n cynnig sylfaen gadarn o dystiolaeth er mwyn llunio strategaeth. Deallir bod mwyafrif y Sefydliadau Addysg Uwch yn casglu'r data hwn wrth gofrestru – ac mae hynny i'w weld yn arfer dda gan

ei fod yn galluogi'r Sefydliad Addysg Uwch a chydweithwyr o fewn Ysgolion neu Adrannau eraill gynnig gwasanaethau/addysg iaith Gymraeg i'r unigolion hyn o'r cychwyn cyntaf.

Gan nad yw sgiliau ieithyddol yn sefydlog, fe nodir arfer dda yn y fan hon lle bo'r data'n cael ei ddiweddarau wrth i'r myfyriwr barhau i symud trwy eu gyrfa yn y Sefydliad Addysg Uwch. Mae systemau unigol yn amrywio ond dylai Sefydliadau Addysg Uwch ystyried cadarnhau'r data hwn (proses sy'n weddol rwydd yn dechnegol) ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd.

LANGPCNT (% modiwl yn Gymraeg)

Mae'r maes hwn yn cofnodi canran modiwl sy'n cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.¹ Gall gynnwys gwerth rhwng 0 a 100 a gellir ei gofnodi hyd at un pwynt degol.

Mae'r maes hwn (LANGPCNT) yn rhan o gofnod ar fodiwl - ac felly mae'n bosibl y bydd y canran sy'n cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ar gyfer gwahanol fyfyrwyr ar yr un modiwl.

Mae'r modd y mae'r canran yn cael ei gyfrifo wedi bod yn destun sawl trafodaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Bwriad y canllawiau a roddir isod felly yw cynorthwyo Sefydliadau Addysg Uwch i gyfrifo'r canran yn gywir a sicrhau elfen o gysondeb yn ymarferol ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch ar draws Cymru. Yr her wrth roi canllawiau at ei gilydd yw bod sefyllfa pob modiwl unigol yn amrywio ac felly ym mhob achos bydd angen i Sefydliadau Addysg Uwch ddefnyddio elfen o farn. Nod y canllawiau hyn felly yw darparu fframwaith lle bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn gallu gwneud penderfyniadau rhesymol ynglŷn â chanran y modiwl sy'n cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dechreuwn trwy ystyried a ddylai'r canran sy'n cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yr un fath ar gyfer pob myfyriwr ar fodiwl. Gallwn wneud hynny trwy ystyried sefyllfaoedd enghreifftiol.

Sefyllfa 1: Mae pob myfyriwr ar fodiwl yn cael eu dysgu gyda'i gilydd, yn derbyn yr un faint o addysgu cyfrwng Cymraeg, ac mae pob myfyriwr yn cyflwyno asesiadau yn yr un iaith. Dylai pob myfyriwr gael eu cofnodi gyda'r un canran.

Sefyllfa 2: Mae elfen Cyfrwng Cymraeg y modiwl yn cael ei gynnig fel grwpiau seminar, felly mae'r myfyrwyr cyfrwng Saesneg yn cael darlithoedd a seminarau yn Saesneg, mae'r myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg yn cael darlithoedd

¹ Ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban a Gogledd yr Iwerddon, gellir ei ddefnyddio hefyd i gofnodi'r ddarpariaeth sy'n cael ei gyflwyno mewn Gaeleg.

yn Saesneg ond Seminarau yn Gymraeg. Dylai'r myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg fel arfer gael eu cofnodi gyda'r un canran ar gyfer eu hastudiaethau yn Gymraeg.

Sefyllfa 3: Mae elfen fechan o astudiaeth Cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyflwyno i bob myfyriwr ar fodiwl (siaradwyr Saesneg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg) e.e. cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith a defnyddio ymadroddion syml mewn lleoliad gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Dylid cofnodi'r un canran (cymharol isel) ar gyfer pob myfyriwr yn y Gymraeg ar gyfer eu hastudiaethau ar fodiwl.

Sefyllfa 4: Mae'r modiwl yn cael ei ddysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae elfen o leoliad gwaith lle gallai'r cyswllt iaith Gymraeg amrywio'n ddibynnol ar y cyflogwr, a hyd yn oed mewn rhai achosion o ddydd i ddydd. Gallwch wneud penderfyniad rhesymol ynglŷn â chanran gyfartalog yr elfen hon o'r modiwl a gynhaliwyd yn Gymraeg, a rhoi'r un canran i'r holl fyfyrwyr ar y modiwl (er bod rhai myfyrwyr mewn gwirionedd wedi astudio canran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd a bod eraill wedi astudio canran ychydig yn is).

O ystyried bod y cofnodion yn seiliedig ar fyfyriwr ar fodiwl, nid oes unrhyw sail resymegol ar gyfer rhoi'r un canran i bob myfyriwr ar fodiwl heb ystyried yr opsiynau a amlinellir uchod. Er enghraifft, pe byddai gennych 100 o fyfyrwyr ar fodiwl 20 credyd, 90 ohonynt nad oeddent yn siarad Cymraeg a heb astudio o gwbl yn y Gymraeg ond wedi rhannu darlithoedd cyfrwng Saesneg gyda'r 10 o fyfyrwyr eraill oedd yn siarad Cymraeg (a gafodd seminarau yn Gymraeg), NI FYDDAI cofnodi bod y 100 myfyriwr wedi astudio 10% yn Gymraeg yn gyson gyda'r canllawiau hyn. Byddai'n llawer mwy cywir cofnodi bod y 90 myfyriwr wedi astudio 0% yn y Gymraeg, a bod y 10 myfyriwr wedi astudio canran benodol yn Gymraeg.

Ar ôl ystyried p'un ai rhoi'r canran i'r holl fyfyrwyr ar fodiwl neu i ddetholiad o'r myfyrwyr hynny, byddwn nawr yn ystyried sut i bennu canran o fodiwl a ddysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Am flynyddoedd lawer, bu Sefydliadau Addysg Uwch yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chanran modiwl a ddysgwyd yn Gymraeg, a diben y canllawiau hyn yw canfod yr arfer orau er mwyn dod â mwy o gysondeb i'r penderfyniadau a wneir.

Y man cychwyn ar gyfer ystyried canran y modiwl sydd yn Gymraeg yw profiad y myfyriwr. I ba raddau fyddai'r myfyriwr yn ystyried eu bod wedi astudio modiwl yn Gymraeg? Faint o ymgysylltiad y myfyriwr gyda modiwl oedd yn Gymraeg?

Dylai'r ffigyrau fod yn synhwyrol, cyson ac archwiliadwy.

Wrth baratoi'r data, dylid ystyried prif gydrannau'r modiwl:

- Oriau dysgu ac addysgu sydd wedi'u hamserlennu (boed hynny'n ffurfiol e.e. darlithoedd, neu diwtorialau llai ffurfiol)
- Asesiadau – cronrus yn ogystal â chrynodol

- Gweithgareddau dysgu hunangyfeiriedig eraill.

Mae'r data hefyd yn seiliedig ar ganran y modiwl sy'n cael ei ddysgu'n Gymraeg - o'i gymharu â'r canran sy'n cael ei ddysgu yn Saesneg. Er mai dim ond ar gyfer nifer fechan o achosion y mae'n berthnasol, os bydd modiwl yn cael ei ddysgu'n bennaf yn Ffrangeg, byddai'r canran yn seiliedig ar y cydbwysedd rhwng dysgu iaith Gymraeg a dysgu iaith Saesneg ar y modiwl.

Byddwn yn ystyried y canran ar fodiwl gan gyfeirio at nifer o sefyllfaoedd i ddangos gweithrediad penderfyniad rhesymol a chyson. Un ffordd ddefnyddiol o ystyried cydbwysedd modiwl yw meddwl am gyfanswm yr oriau a dreulir gan fyfyrwr yn astudio modiwl, ac i amcangyfrif canran yr oriau hynny a dreulir yn Gymraeg.

Sefyllfa 1: Mae'r modiwl yn cael ei ddysgu gyda darlithoedd yn Saesneg (10 darlith awr o hyd) a seminarau yn Gymraeg (10 seminar awr o hyd). Cwblheir pob asesiad yn Gymraeg (traethawd ac arholiad), ac mae pecyn dysgu hunangyfeiriedig ar gael yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr. Byddem yn argymhell y dylid cofnodi'r modiwl hwn yn 75% Cyfrwng Cymraeg. Gan ddibynnu ar union gyd-destun y modiwl a'r pwnc a'r amrediad o weithgareddau dysgu a pharatoi ar gyfer y seminarau, gellir nodi canran rhwng 70% ac 80% yn rhesymol.

Oriau o weithgaredd	Saesneg	Cymraeg
Darlithoedd + a darllen	10 + 10	0
Seminarau + a pharatoi	0	10 + 20
Pecyn dysgu hunangyfeiriedig	0	20
Arholiad a Thraethawd	5	25
Cyfanswm	25 (25%)	75 (75%)

Sefyllfa 2: Llenyddiaeth Ffrangeg yw testun y modiwl. Er ei fod yn cael ei ddysgu'n bennaf yn Ffrangeg, mae'n fodiwl cyfrwng Cymraeg cydweithredol, a darperir yr holl addysgu arall yn Gymraeg. Dylid cofnodi'r modiwl hwn yn 100% Cyfrwng Cymraeg.

Sefyllfa 3: Mae'r modiwl yn cael ei ddysgu a'i asesu'n bennaf yn Saesneg ond ceir tiwtorialau unigol ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn Gymraeg - 10 darlith (Saesneg), 5 seminar awr o hyd (Saesneg), 5 tiwtorial unigol (Cymraeg) rhwng 30 a 90 munud o hyd; asesiadau yn Saesneg. Byddem yn argymhell y dylid cofnodi'r modiwl hwn yn 27% cyfrwng Cymraeg - gweler isod. Gellir cofnodi'r modiwl hyd at 47% cyfrwng Cymraeg pe byddai'r asesiadau'n cael eu cwblhau'n Gymraeg.

3a Asesiad yn Saesneg

Oriau o weithgaredd	Saesneg	Cymraeg
Darlithoedd + a darllen	10 + 10	0

Seminarau + a pharatoi	5 + 10	0
Tiwtorialau	0	5 + 10
Arholiad a Thraethawd	20	5
Cyfanswm	55 (73%)	20 (27%)

3b Asesiad yn Gymraeg

Oriau o weithgaredd	Saesneg	Cymraeg
Darlithoedd + a darllen	10 + 10	0
Seminarau + a pharatoi	5 + 10	0
Tiwtorialau	0	5 + 10
Arholiad a Thraethawd	5	20
Cyfanswm	40 (53%)	35 (47%)

Sefyllfa 4: Modiwl iaith Gymraeg sy'n cyflwyno myfyrwyr i Gymraeg ar gyfer ddechreuwr. Dylid cofnodi'r modiwl yn 100% cyfrwng Cymraeg.

Sefyllfa 5: Modiwl cyfrwng Saesneg ond cyflwynir yr holl fyfyrwyr i elfen o ddeunydd cyfrwng Cymraeg mewn darlithoedd e.e. fel paratoad i gyflwyno Cymraeg fel rhan o gwricwlwm ysgol gynradd yng Nghymru. Gwneir hyn yn ystod 5 o'r 20 darlith ar yr amserlen. Ceir hefyd seminarau yn Saesneg fel rhan o'r cwrs. Byddem yn awgrymu na ellir cofnodi mwy na 10% o'r modiwl yn gyfrwng Cymraeg yn rhesymol.

Oriau o weithgaredd	Saesneg	Cymraeg
Darlithoedd + a darllen	15 + 20	5 + 5
Seminarau + a pharatoi	10 + 20	0
Arholiad a Thraethawd	25	0
Cyfanswm	90 (90%)	10 (10%)

Wrth gwrs, sefyllfaoedd enghreifftiol yn unig yw'r rhain; ni allant fod yn berthnasol ar gyfer yr amrediad lawn o wahanol sefyllfaoedd ar gyfer pob modiwl unigol. Os hoffai Sefydliadau Addysg Uwch dderbyn arweiniad penodol ynglŷn â modiwlau penodol, neu awgrymu sefyllfaoedd eraill i'w cynnwys yn y data, byddai'r Coleg Cymraeg yn falch iawn o glywed gennych.

TCHWLH (Dysgu yn Gymraeg)

Mae'r maes hwn yn cofnodi nifer y staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau cytundebol, yn dysgu yn Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Nid yw'n cofnodi faint o ddysgu Cymraeg sy'n cymryd lle, felly os bydd aelod o staff yn dysgu'n gyfan gwbl yn Gymraeg neu ychydig yn Gymraeg, dylid eu cofnodi yma fel eu bod yn dysgu yn Gymraeg.

ABLWELSH (Yn gallu dysgu'n Gymraeg)

Mae'r maes hwn yn cofnodi'r staff hynny mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n gallu dysgu yn Gymraeg. Felly dylai ABLWELSH gynnwys y staff hynny sydd yn dysgu yn Gymraeg a'r rhai sy'n gallu dysgu yn Gymraeg.

Data Setiau Gwybodaeth Allweddol (KIS)

Mae canran pob modiwl sy'n cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol wrth baratoi adroddiadau Setiau Gwybodaeth Allweddol (KIS) Cwrs. Yma, caiff y data ei gasglu ar lefel y cwrs a'i gysylltu â chyfran y cwrs sydd ar gael yn Gymraeg. Mae'r data KIS yn adlewyrchu'r dysgu a'r addysgu cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i amserlennu a dylai adlewyrchu'r dewis sydd ar gael i fyfyrwyr. Er enghraifft pe byddai myfyriwr yn gwneud dewis rhesymol i astudio pob un o'i 360 credyd yn Gymraeg, dylai'r gyfran sydd ar gael yn Gymraeg gael ei gofnodi'n 100%. Yn yr un modd, pe byddai dwy ran o dair o'r modiwlau yn Gymraeg (240 credyd) a thri chwarter o'r modiwlau unigol hynny'n cael eu darparu'n Gymraeg, byddai'r canran yn cael ei gofnodi'n 50% (h.y. $[(240 \cdot 75)/360]$).

Wrth baratoi data KIS dylai'r Sefydliad Addysg Uwch ddefnyddio barn resymol ynglŷn â'r hyn y gall myfyriwr ei 'ddewis'. Mae gan nifer o gyrsiau lwybrau clir ac maent yn gwahaniaethu rhwng modiwlau craidd, modiwlau dewisol a argymhellir (weithiau fel casgliad o argymhellion posib) a modiwlau dewisol. Dylid gofalu i sicrhau y gallai myfyriwr, yn rhesymol, astudio'r modiwlau cyfrwng Cymraeg sy'n darparu sylfaen ar gyfer cyfran yr astudiaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyflwyno data darpariaeth cyfrwng Cymraeg KIS ar gyfer pob cwrs perthnasol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

Defnyddio'r Data

Defnyddir y data a amlinellir uchod gan nifer o wahanol sefydliadau at amrywiaeth o ddibenion. Bwriad yr adran hon yn y cylchlythyr yw dangos rhai o'r dulliau pennaf o ddefnyddio'r data. Nid yw'n cynnwys popeth ond mae'n dangos yr amrediad o ddefnydd a wneir o'r data.

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu bwletin ystadegol rheolaidd ar safle'r Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

Mae'r datganiadau ystadegol yma ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-higher-education-institutions/?skip=1&lang=cy> ac mae'r gyfres yn dechrau yn 2006 ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r datganiad ystadegol yn cynnwys data'n ymwneud â:

- Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n astudio rhai elfennau o'u cwrs yn Gymraeg (yn ôl dull, Sefydliad Addysg Uwch a phwnc)
- Cyfran y cwrs sy'n cael ei astudio'n Gymraeg
- Myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru'n astudio yn Gymraeg
- Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n arwain at ddysgu dwyieithog
- Staff sy'n dysgu a staff sy'n gallu dysgu yn Gymraeg
- Gallu i siarad Gymraeg

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)

Mae HEFCW yn gwneud defnydd helaeth o'r data Cyfrwng Cymraeg, o ran dadansoddiad data yn ogystal â strategaeth gorfforaethol.

Hyd nes y newidiadau diweddar, roedd data Cyfrwng Cymraeg yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r premiwm wedi cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n astudio ar sail rhan amser yn unig ac felly mae arwyddocâd y taliadau hyn wedi lleihau'n sylweddol.

Mae Strategaeth Gorfforaethol HEFCW yn cynnwys targedau i'w cyrraedd gan y sector erbyn 2016/17:

- 5,600 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg
- 3,030 o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r targed cyntaf yn cynnwys y rhai sy'n rhan o'r ail darged h.y. yn ei hanfod os bydd myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg, maent hefyd yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

Mae targed y Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei fonitro gan HEFCW ac yn rhan o'r broses cynllunio ffioedd, ac mae targedau wedi cael eu paratoi ar gyfer pob Sefydliad Addysg Uwch (mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) a fyddai'n sicrhau bod y sector cyfan yn cyrraedd targedau'r strategaeth gorfforaethol.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – y corff cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chydlynu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg – yn gwneud defnydd helaeth o'r data sydd ar gael.

Mae'r Coleg yn:

- i) Monitro cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol ac wedi paratoi targedau ar gyfer pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru (mewn trafodaeth gyda HEFCW).
- ii) Dadansoddi data ar sail Sefydliad Addysg Uwch a phwnc penodol er mwyn asesu cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Academaidd Cenedlaethol a'r cynlluniau pwnc unigol a gytunwyd ar gyfer pob maes.
- iii) Ystyried y data'n rhan allweddol o'r broses gynllunio ac ariannu wrth ddyfarnu grantiau a chynllunio datblygiad
- iv) Ceisio canfod bylchau mewn darpariaeth pan fo nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl (mewn ardal/pwnc penodol) yn llawer uwch na nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg.
- v) Yn darparu Chwilytydd Cyrsiâu, sef gwefan ac ap dewis cyrsiau'n seiliedig ar ddata Setiau Gwybodaeth Allweddol (KIS) sy'n galluogi myfyrwyr i chwilio pob cwrs yng Nghymru gydag ychydig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg:
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/trwyrwymraeg/chwilioamgwrs/>
- vi) Cynnig prif ysgoloriaethau ar gyfer pob cwrs pan fo mwy na dwy ran o dair o'r ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg yn flynyddol (h.y. y cyrsiau hynny lle bo data Setiau Gwybodaeth Allweddol yn cofnodi canran dros 66%) ac ysgoloriaethau cymhellant mewn meysydd pwnc penodol pan fo mwy na thraean o'r ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg yn flynyddol (h.y. y cyrsiau hynny lle bo data Setiau Gwybodaeth Allweddol yn cofnodi canran dros 33%)
- vii) Dadansoddi tueddiadau mewn data UCAS er mwyn canfod newidiadau ym mhatrwm dewis myfyrwyr
- viii) Monitro grantiau'r Coleg (yn enwedig y cynllun staffio academaidd) trwy gyfeirio at niferoedd cynyddol myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n astudio cyrsiau gradd penodol.

Sefydliadau Addysg Uwch

Mae pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn gwneud defnydd o'r data a amlinellir, ond mae patrymau ymgysylltiad yn amrywio. Mae'r sefydliadau hynny a ellir eu hystyried yn esiampl o'r arfer gorau wedi ymgymryd â chyfuniad o'r gweithgareddau canlynol:

- i) Datblygu strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg fel rhan o strategaeth ehangach y Sefydliad Addysg Uwch, wedi'i arwain gan ddata
- ii) Nodi meysydd twf o fewn y Sefydliad Addysg Uwch a gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r meysydd posib hyn
- iii) Datblygu systemau i alluogi'r rhai sy'n gyfrifol am astudiaethau Cyfrwng Cymraeg o fewn y Sefydliad Addysg Uwch i olrhain cofrestriadau cyfrwng Cymraeg a chofrestriadau posib fel mae'n digwydd.
- iv) Darparu gwybodaeth i ysgolion academaidd a gwasanaethau canolog ynglŷn â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n ymgeisio ar gyfer y Sefydliad Addysg Uwch

- v) Hyrwyddo ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sydd wedi cofrestru ar gyrsiau cymwys.
- vi) Adolygu cynnydd sefydliadol tuag at gyrraedd targedau strategaeth gorfforaethol HEFCW yn rheolaidd ar lefel uwch reolwyr o fewn y Sefydliad Addysg Uwch.
- vii) Sicrhau bod gweithdrefnau clir a chadarn mewn lle ym mhob maes i nodi pob myfyriwr sy'n astudio rhyw elfen o'r modiwl yn Gymraeg – hyd yn oed pan nad yw'r modiwl wedi'i glustnodi fel 'modiwl Cyfrwng Cymraeg' o reidrwydd o fewn system cofnodion myfyrwyr y brifysgol.

Adolygu'r data

Mae data'n ymwneud â myfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a'u dewisiadau ar gyfer astudio yn Gymraeg wedi bod yn rhan ganolog o broses cynllunio'r Coleg ers y dechrau. Pan sefydlwyd y Coleg, y targed cyfrwng Cymraeg oedd gweld 5,600 o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bu trafodaeth ynglŷn â pha mor briodol oedd y targed o ystyried ei fod yn canolbwyntio ar astudio 'rhyw' elfen yn Gymraeg – a allai fod yn gyfran fechan iawn o fodiwl unigol.

Yn dilyn sefydlu'r Coleg, gosodwyd dau darged ar gyfer cynllun strategol:

- Astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg – 5,600 o fyfyrwyr
- Astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg – 3,030 o fyfyrwyr

Mae'r adolygiad hwn yn crynhoi'r data ar draws y sector cyfrwng Cymraeg. Gwneir hynny trwy ystyried y data'n ymwneud â myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg; myfyrwyr sy'n ymgeisio am leoedd mewn prifysgolion a data'n ymwneud â sgiliau ieithyddol staff. Y data diweddaraf sydd ar gael gan HESA (Higher Education Statistics Agency) yw data ar gyfer 2014/15, ac felly mae'n cynnwys darlun cychwynnol yn unig o gynnydd y Coleg.

Wrth ystyried niferoedd sy'n astudio o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Coleg wedi paratoi rhagolygon yn y ddwy achos. Yn seiliedig ar y cynnydd sylweddol sydd eisoes wedi'i wneud rydym yn rhagweld y bydd y Coleg / sector yn cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17. Dechreuwn trwy ystyried nifer y myfyrwyr a gwblhaodd rywfaint o astudiaeth cyfrwng Cymraeg.

Myfyrwyr sy'n astudio rhyw elfen o'r cwrs yn Gymraeg

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Prifysgol Glyndŵr	95	70	255	85	45
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	145	125	195	230	240
Prifysgol De Cymru	235	230	265	350	385
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	2,040	2,040	2,425	1,870	2,185
Prifysgol Aberystwyth	480	485	530	545	545
Prifysgol Bangor	1,445	1,330	1,330	1,500	1,705
Prifysgol Caerdydd	230	230	235	320	820
Prifysgol Abertawe	250	210	230	350	430
Holl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru	4,925	4,715	5,465	5,250	6,355

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhyw elfen o'u cwrs yn Gymraeg. Gallai hynny fod yn gwrs cyfan, neu'n rhan fechan neu'n fodiwl unigol.

Gallwn weld patrwm clir yma o'r cynnydd ar draws y prifysgolion. Mae'r cynnydd mewn canrannau yn fwyaf trawiadol yn y prifysgolion hynny lle bu darpariaeth ehangach na'r gorffennol a lle mae'r Coleg wedi buddsoddi adnoddau sylweddol. Mae'r darlun sy'n ymddangos yn un gadarnhaol.

Myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Prifysgol De Cymru	246	251	347	370	<i>Rhagolygon cenedlaethol yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Sefydliadau Addysg Uwch a gwybodaeth ar fuddsoddiad y Coleg Cymraeg</i>	
Prifysgol Aberystwyth	465	517	539	537		
Prifysgol Bangor	1,177	1,244	1,385	1,538		
Prifysgol Caerdydd	230	215	321	404		
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	1,780	2,020	1,700	1,869		
Prifysgol Abertawe	196	222	271	328		
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	111	195	228	234		
Prifysgol Glyndŵr	37	148	69	19		
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	79	53	54	7		
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru	4,321	4,865	4,914	5,306		
Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru	4,335	4,882	4,932	5,399	5,658	5,738

Mae data'n ymwneud â thros 5 credyd o astudiaeth cyfrwng Cymraeg yn dangos cynnydd sylweddol a phwrpasol ers sefydlu'r Coleg. Mewn tair blynedd yn unig mae dros 1,000 yn fwy o fyfyrwyr wedi astudio elfennau o'u cwrs yn Gymraeg ac mae'r patrwm hwnnw'n digwydd ar draws y wlad.

Myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Prifysgol De Cymru	105	124	99	162	<i>Rhagolygon cenedlaethol yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Sefydliadau Addysg Uwch a gwybodaeth ar fuddsoddiad y Coleg Cymraeg.</i>	
Prifysgol Aberystwyth	316	358	387	399		
Prifysgol Bangor	786	718	767	823		
Prifysgol Caerdydd	166	159	233	310		
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	706	718	650	549		
Prifysgol Abertawe	94	86	82	103		
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	81	179	201	207		
Prifysgol Glyndŵr	*	*	8	5		
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0		
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru	2,255	2,343	2,427	2,558	2,862	2,957
Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru	2,269	2,360	2,445	2,633	2,937	3,032

Mae'r data hwn hefyd yn awgrymu'n glir y bydd y Coleg / prifysgolion Cymreig yn cyrraedd y targed cenedlaethol a osodwyd o ran myfyrwyr a astudiodd o leiaf 40 credyd yn Gymraeg. Mae'r Coleg yn credu bod cyrraedd y targed hwn yn gyrhaeddiad sylweddol - gan ein bod yn gallu bod yn hyderus ynglŷn â sgiliau dwyieithog uwch yr unigolion sydd wedi astudio o leiaf traean o gwrs gradd yn Gymraeg. Wrth edrych ar y data'n fanylach gallwn weld bod rhai pynciau wedi profi cynnydd sylweddol - o lefel isel iawn cyn sefydlu'r Coleg. O'r rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd israddedig yn Gymraeg (yn 2014/15) roedd 55 yn fyfyrwyr Busnes, 29 yn astudio Amaeth/Amgylchedd, 36 yn astudio'r Gyfraith, 192 yn astudio Nyrso, 33 yn astudio Gwyddorau Ffisegol a Mathemategol, 26 yn astudio Seicoleg a 83 yn astudio Chwaraeon. Mae pob un o'r rhain yn feysydd lle mae'r Coleg wedi bod yn weithgar ym maes cynllunio academiaidd ac wedi buddsoddi mewn capasiti staff er mwyn ehangu ar y ddarpariaeth.

Myfyrwyr Israddedig cyfwerth ag amser llawn yn ôl pwnc 2014/15 yn astudio rhyw elfen o'r cwrs yn Gymraeg

Celf a Dylunio	90
Gwyddorau Biolegol a Biogemegol	54
Astudiaethau Busnes	120
Cemeg	14
Cyfrifiadureg/Astudiaethau Cyfrifiaduron	36
Diwydiannau creadigol	214
Deintyddiaeth	0
Addysg ac Astudiaethau Plentynod	944
Peirianeg	13
Gwyddorau Amgylcheddol ac Amaethyddol	48
Daearyddiaeth	84
Galwedigaethau Iechyd	41
Hanes, Hanes Cymru, y Clasuron ac Archaeoleg	130
Astudiaethau Gwybodaeth	0
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	304
Ieithoedd	76
Y Gyfraith	100
Mathemateg	35
Meddygaeth	14
Cerddoriaeth	50
Nyrsio a Bydwreigiaeth	236
Optometreg	0
Astudiaethau Celtaidd	12
Fferylliaeth	0
Athroniaeth	24
Astudiaethau Corfforol	40
Gwleidyddiaeth	31
Seicoleg	50
Gwaith Cymdeithasol	122
Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol	80
Gwyddorau Chwaraeon	134
Technoleg	*
Diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol	49
Cymraeg	236

Gallwn osod y data gyda'i gilydd mewn grwpiau pwnc ehangach fel a ganlyn:

Celfyddydau a Dyniaethau	Astudiaethau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	Gwyddorau Cymdeithasol	Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Gwyddorau naturiol
881	1248	515	413	327

Gallwn weld yn y lle cyntaf bod nifer sylweddol o fyfyrwyr yn dal i astudio pynciau yn y Dyniaethau, Celfyddydau ac Addysg. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi newid ers sefydlu'r Coleg. Bellach mae niferoedd sylweddol o fyfyrwyr yn y Gwyddorau Cymdeithasol, Iechyd a Naturiol sy'n astudio rhyw elfen o'u cwrs yn Gymraeg: Nyrsio (236), Gwaith Cymdeithasol (122), Busnes (120), Chwaraeon (134) a'r Gyfraith (100). Mae hyn yn ychwanegol i'r rhai sy'n astudio pynciau mwy 'aeddffed' yn y Gymraeg – Astudiaethau Addysg (944), Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (304), Gymraeg (236), Hanes (130) a Diwydiannau Creadigol (214).

Sgiliau Ieithyddol Myfyrwyr 2014/15²

	Rhugl	Siaradwyr heb fod yn rhugl
Prifysgol Glyndŵr	395	810
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	760	750
Prifysgol De Cymru	1,865	2,520
Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant	1,435	1,495
Prifysgol Aberystwyth	970	645
Prifysgol Bangor	1,375	810
Prifysgol Caerdydd	1,800	1,515
Prifysgol Abertawe	1,130	1,060
Cyfanswm	9,740	9,600

² Mae'r data yn deillio o WELSSP

Gallwn weld o'r data hwn bod nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ychydig dan 10,000. Mae'r ffigwr hwn wedi lleihau ers 2010/11 pan oedd 11,000 yn datgan eu bod yn rhugl. Mae dau bwynt yn codi o'r tabl hwn yn y lle cyntaf:

- i. O ystyried y lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein prifysgolion yng Nghymru, mae cynnydd y Coleg Cymraeg hyd yn oed yn fwy trawiadol.
- ii. Mae nifer uchaf y siaradwyr Cymraeg rhugl ym Mhrifysgolion Caerdydd a De Cymru - gan awgrymu o leiaf bod potensial ar gyfer twf pellach yn yr ardaloedd hynny.

Staff yn Dysgu (neu'n gallu dysgu) yn Gymraeg³

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Dysgu yn Gymraeg	465	510	645	595	630
Yn gallu dysgu yn Gymraeg	725	800	805	975	975

Mae data heyfd yn cael ei gasglu'n ymwneud a nifer y staff sy'n dysgu yn y Gymraeg (ac sy'n gallu dysgu yn Gymraeg). Yma eto mae'r data'n dangos cynnydd pendant – 165 yn fwy o staff yn dysgu yn Gymraeg yn 2014/15 o'i gymharu â 2010/11, a 250 yn fwy yn gallu astudio yn Gymraeg. Mae'r twf hwn yn amlwg yn gysylltiedig â Chynllun Staffio'r Coleg Cymraeg a'r buddsoddiad i'r cynllun Ysgoloriaeth PhD.

Data UCAS

Mae data UCAS yn creu anhawster wrth ddadansoddi. Nid yw UCAS yn gofyn i fyfyrwyr nodi eu gallu ieithyddol. Maent yn casglu data am nifer yr ymgeiswyr sy'n cwblhau eu ffurflenni yn Gymraeg, ond mae'r nifer hwn yn ganran fechan o'r rhai sy'n gallu astudio yn Gymraeg ac yn wir o'r rhai sy'n dymuno astudio yn Gymraeg.

Trwy weithio gydag UCAS, mae'r Coleg wedi comisiynu set o ddata yn ymwneud â dewisiadau prifysgolion myfyrwr (o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ambell goleg). Nid yw'r fformiwla yn berffaith gan nad yw rhai sydd wedi mynychu'r ysgolion a'r colegau a ddewiswyd yn gallu astudio yn Gymraeg, a bod eraill na chawsant eu cynnwys yn y data yn gallu ac yn dymuno astudio yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r data'n cynnig darlun sy'n datgelu llawer am batrymau a ddewiswyd gan fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

Ceisiadau llwyddiannus gan fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg

³ Mae'r data'n deillio o TCHWLH ac ABLWELSH

Gwlad y Darparwr Addysg Uwch	2011	2012	2013	2014	2015
Cymru	1395	1325	1345	1355	1385
Lloegr	690	840	825	940	1015
% Cymru	67%	61%	62%	59%	58%

Mae nifer tebyg o fyfyrwr yn ymgeisio'n llwyddiannus ac yna'n derbyn lleoedd mewn prifysgolion yng Nghymru. Ond er bod nifer y myfyrwr a ymgeisiodd o brifysgolion yng Nghymru wedi aros yr un fath, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y myfyrwr sydd wedi ymgeisio'n llwyddiannus i gael eu derbyn i brifysgolion yn Lloegr. (Mae'r niferoedd yn ymwneud â'r Alban a Gogledd Iwerddon yn anarwyddocaol.)

Ceisiadau Llwyddiannus yn ôl Graddau Lefel A

Lefel A	Gwlad	2011	2012	2013	2014	2015
ABB+	Cymru	360	305	255	230	260
	Lloegr	300	335	350	340	380
Dim ABB+	Cymru	1035	1025	1090	1120	1120
	Lloegr	385	505	475	600	635

Gall data UCAS hefyd ddatgelu'r dewisiadau pwnc yn ôl y wlad a chanlyniadau Lefel A. Mae'r darlun yn y fan hon yn fwy difrifol byth. Ers 2011 mae nifer y myfyrwr gyda chanlyniadau Lefel A rhagorol yng Nghymru wedi gostwng dros chwarter, ac mae'r nifer sy'n mynd i Loegr wedi cynyddu dros chwarter. Mae'r darlun hwn yn llai dramatig ymysg y rhai nad ydynt wedi derbyn canlyniadau Lefel A ABB+

Casgliadau Cychwynnol

Wrth gymryd trosolwg o'r data, mae'r themâu canlynol yn dod i'r amlwg:

- i. Mae'r Coleg wedi cael llwyddiant sylweddol o ran cynnyddu nifer y rhai sy'n astudio yn Gymraeg
- ii. Mae'r llwyddiant hwn wedi bod yn enwedig o ddramatig o ran nifer y myfyrwr sy'n astudio cyfran sylweddol o'u cwrs gradd yn Gymraeg.
- iii. Gwelwyd cynnydd penodol yn y Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddorau Iechyd a Gwyddorau Naturiol, gan symud y cydbwysedd ychydig oddi wrth y Dyniaethau, y Celfyddydau ac Astudiaethau Addysg.
- iv. Mae nifer y staff sy'n dysgu yn Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol

- v. Mae'r cynnydd hwn wedi digwydd er gwaethaf patrymau dewisiadau myfyrwyr, a gellir dadlau eu bod yn cael eu heffeithio a'u dylanwadu gan ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth y Coleg Cymraeg.